**Mark Drakeford AC / AM**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MB/MD/5213/14

David Rees AC
Cadeirydd
Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

1 Rhagfyr 2014

Annwyl David,

Diolch i chi am eich llythyr dyddiedig 26 Tachwedd 2014 ynglŷn â fy mhresenoldeb yng nghyfarfod y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar 20 Tachwedd 2014 i drafod gwaith craffu ar ôl deddfu ar Fesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010.

Mewn ymateb i'ch cais am fanylion am nifer y cleifion sydd wedi cael eu hatgyfeirio o dan lwybrau iechyd meddwl amrywiol, a'r perfformiad yn erbyn yr amseroedd atgyfeirio targed ar gyfer bob llwybr, gallaf gadarnhau mai'r Gwasanaeth Cymorth Iechyd Meddwl Gofal Sylfaenol Lleol (LPMHSS) sydd â'r targed o 28 diwrnod o atgyfeiriad i asesiad (dros 71% ar hyn o bryd) ac un o 56 diwrnod o asesiad hyd at ymyriad (dros 85% ar hyn o bryd).

Ni fyddai'r atgyfeiriadau a wneir gan Feddyg Teulu i'r gwasanaeth hwn o natur frys. Fel arfer mi fyddan nhw'n nodweddiadol o bobol sy'n profi iselder ysgafn i gymhedrol. Yn dilyn asesiad gan yr LPMHSS, os gwneir penderfyniad nad yw'n bosibl cwrdd ag anghenion cleifion trwy ofal lefel sylfaenol, bydd y claf yn cael ei atgyfeirio at wasanaethau Iechyd Meddwl eilaidd.

Ni chafodd gallu Meddygon Teulu i atgyfeirio i wasanaeth iechyd meddwl eilaidd ei newid yn sgil cyflwyno'r Mesur. Cyhoeddwyd cyfarwyddyd interim yng Ngorffennaf 2010 i dimau Iechyd Meddwl cymunedol sy'n parhau i fodoli. Mae'r cyfarwyddyd hwn yn eglur mai'r graddfeydd amser y mae Dr Watkins wedi cyfeirio atynt sy'n berthnasol pan fo tîm iechyd meddwl cymunedol yn derbyn atgyfeiriad.

Nid yw'r graddfeydd amser hyn yn rhan o dargedau haen 1 y GIG ac felly nid yw'r perfformiad yn cael ei gasglu yn ganolog.

Yn gywir

Mark Drakeford

**Mark Drakeford AC/AM**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.Mark.Drakeford@wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*